Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Y sector yn croesawu gohirio caffael

Mae'r cytundeb ag awgrym WCVA y dylid gohirio'r gwaith caffael ar gyfer patrwm newydd o wasanaethau cynghori er mwyn lleddfu effeithiau'r dirwasgiad wedi cael ei groesawu gan grwpiau'r sector.

Yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, cyhoeddwyd na fyddai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwrw ymlaen a^'r cynlluniau presennol ar gyfer comisiynu ar y cyd yn 2010, gan ddisgwyl am astudiaeth ddichonoldeb ar y mater.

Dywedodd Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, Fran Targett, fod gwasanaethau CAB ledled Cymru eisoes yn wynebu effeithiau'r dirywiad ar eu cleientiaid.

'Roedd y cynnydd mewn galw, flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2008 yn dangos bod cyngor ynghylch dileu swyddi wedi codi 162% ac ynghylch Lwfans Ceisio Gwaith wedi codi 68%. Yn fwyaf pryderus, roedd cyngor ynghylch dyledion a morgeisi a benthyciadau wedi eu gwarantu wedi codi 40%,' ychwanegodd.

'Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Cynulliad y bydd y cynigion ar gyfer newidiadau mawr yn y cyllid ar gyfer cyngor yn cael eu gohirio gan ein bod yn credu bod angen i'r sector cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu ei gleientiaid ar hyn o bryd – a pheidio ag ymateb i ailstrwythuro neu fidio a chaffael. Fodd bynnag, mae cynnal ffrydiau cyllid - mewn termau real - o lywodraeth leol a'r Cynulliad sy'n caniata^u i'r sector cyngor helpu'r cleientiaid sydd a'r angen mwyaf, yn hanfodol ac nid yw wedi'i sicrhau eto.'

Dywed Cymorth Cymru fod y cyhoeddiad yn 'newyddion da'. Dywedodd y Gyfarwyddwraig, Joy Kent, wrth Rhwydwaith Cymru: 'Er ein bod yn cydnabod yr hinsawdd economaidd sy'n gwaethygu, credwn ei bod yn amser buddsoddi rhagor yn y gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac unigolion a eithrir – nid llai.

'Fel arall, pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella, bydd yr unigolion hynny a'r rhannau hynny o Gymru a oedd dan anfantais yn ystod y cyfnodau economaidd mwy ffafriol yn cael eu gadael ymhellach fyth ar ôl.'

Newyddion am ymchwil cydraddoldebau

Mae nifer o gyhoeddiadau newydd ar gael sy'n edrych ar y sylfaen dystiolaeth a materion yn ymwneud a^ chydraddoldeb yng Nghymru.

Materion yn ymwneud a^ chydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o'r ymchwil a'r ystadegau sy'n berthnasol i Gymru o safbwynt hil, rhyw, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Mae'r adroddiad, sy'n seiliedig ar ymchwil a gyhoeddwyd rhwng 2000 a Hydref 2008, yn canolbwyntio ar dlodi ac allga^u cymdeithasol, yr economi a'r farchnad lafur, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, a bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. http://tiny.cc/NITA4

Canllawiau ar dystiolaeth yn ymwneud a^ chydraddoldeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r canllawiau'n rhan o gyfres a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol i gefnogi strategaeth prif-ffrydio cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a hygyrch. Mae'r Canllawiau'n adolygu'r ffynonellau posib o dystiolaeth ar gyfer pob llinyn cydraddoldeb o fewn chwe maes polisi. Bydd y Canllawiau'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- **cynhwysiant ariannol**
- **diogelwch trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru – y sefyllfa mewn gwirionedd a'r ffordd y mae pobl yn ei gweld hi**
- **mynediad at wasanaethau iechyd eilaidd a dewisol**
- **addysg ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer y rheini rhwng 0-19 oed**
- **rhwystrau i les economaidd neu gyfranogaeth yng Nghymru wledig**
- **cyfranogaeth mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon**
- **materion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol trawsbynciol sy'n codi yn sgil effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol newid yn yr hinsawdd, risg llifogydd a llifogydd. http://tiny.cc/7uiEC**

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i lansio'r cyhoeddiadau hyn, un yn y Gogledd a'r llall yn y De. Daeth llawer o bobl ynghyd i'r digwyddiadau, yn cynnwys ystod dda o fudiadau'r trydydd sector. Os hoffech chi drafod y cyhoeddiadau hyn ymhellach, neu'r sylfaen dystiolaeth o ran cydraddoldeb yng Nghymru a sut y gellir ei wella er mwyn cefnogi gwaith y trydydd sector, mae croeso i chi gysylltu a^ Jessica McQuade yn WCVA ar 029 2043 1759 neu anfon e-bost at jmcquade@wcva.org.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Annog llywodraeth leol i gefnogi'r sector yn ystod y dirwasgiad

Anogwyd cynghorau lleol Cymru i barhau i gefnogi'r trydydd sector yn ystod y dirwasgiad presennol. Mewn llythyr at arweinwyr pob un o'r 22 awdurdod unedol, dywed y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr Brian Gibbons, ei fod am atgyfnerthu egwyddorion cydweithio, yn enwedig yn unol â naws Cod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyllido'r sector.

Dywed fod Cynllun y Sector Gwirfoddol wedi braenaru'r tir ar gyfer y berthynas waith hirdymor rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r sector. Ychwanega fod y Cod Ymarfer yn amlinellu'r egwyddorion allweddol sy'n sail i gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y sector ac yn sicrhau'r arfer gorau.

Diwygiwyd y Cod yn ddiweddar i ystyried canllawiau arfer gorau ynghylch caffael ac adennill costau llawn ac mae'n 'bwriadu darparu fframwaith cyllido effeithiol a chynaliadwy' yn seiliedig ar egwyddorion gan gynnwys y canlynol:

- Trafodaeth gynnar ac adeiladol - cyfle i drafod cynigion ymhell o flaen terfyn amser ffurfiol y cais.
- Penderfyniadau amserol - rhoi gwybod am gymeradwyaeth grant erbyn 31 Rhagfyr.
- Lefelau cyllid teg - ni ddylid lefel cyllid i'r sector gael eu pennu'n ddim gwahanol nag i sectorau neu asiantaethau eraill.
- Adenill Cost Llawn - bydd lefelau'r cyllid yn cael eu seilio ar egwyddorion Adennill Cost Llawn.
- Sicrwydd cyllid – hyd at bump i saith mlynedd ar gyfer cyllid craidd strategol ac ymrwymiad dros gyfnod unrhyw brosiectau penodol a ariennir, gan ddarparu cyllid pendant ar gyfer y flwyddyn gyntaf a llinellau sylfaen eglur ar gyfer y blynyddoedd a ganlyn.
- Caffael teg – cyllid caffael sy'n seiliedig ar bris, nid ar gost.
- Taliadau o flaen llaw - darpariaeth ar gyfer talu'r grant o flaen llaw, lle gellir dangos yn amlwg bod angen yr arian, gan gynnwys y cynlluniau hynny a ddarperir gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyllid Ewropeaidd a ddarperir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Triniaeth deg a rhesymol - dylid trafod ymlaen llaw unrhyw newid i bolisïau neu benderfyniad a allai arwain at ddiddymu'r grant neu at ostyngiad sylweddol yn ei werth, a rhoi rhybudd rhesymol o unrhyw newid.

Mae'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gael yn:http://tiny.cc/ks2OF. Dylai cyfeirio cwynion at Gadeirydd yr Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio, d/o Uned Sector Gwirfoddol, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Merthyr Tudful CF48 1UZ.

Mae Prif Weithredwr WCVA, Graham Benfield OBE, yn croesawu'r llythyr ac yn hybu cynghorau a mudiadau gwirfoddol lleol i weithio'n agos gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn er mwyn sicrhau agwedd deg tuag at gyllido.

Cyswllt i grwpiau ynysig

Bu Rhwydwaith Cymunedol, yr elusen gynadledda ffôn, yn llwyddiannus yn ei gais i Arian i Bawb ac y mae wedi derbyn grant i ariannu grwpiau cefnogi dros y ffôn yng Nghymru.

Y mae grwpiau cefnogi dros y ffôn yn cynorthwyo'r rhai na allant deithio am amryfal resymau, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell yn ddaearyddol neu bobl sy'n dioddef oddi wrth anhwylder emosiynol neu gorfforol. Beth bynnag fo'r rheswm, profodd y grwpiau hyn eu bod yn llwyddiannus wrth liniaru unigrwydd ac effeithiau hynny ar iechyd ac emosiynau.

Mae Rhwydwaith Cymunedol eisiau sicrhau fod y bobl fwyaf ynysig a chymdeithasol ddifreintiedig yn cael budd oddi wrth grant Arian i Bawb.

Meddai Susan Robinson, Swyddog Prosiect Rhwydwaith Cymunedol: 'Mae llwyddiant y prosiect hwn yn dibynnu ar y cydweithrediad rhagorol a gawsom gan fudiadau'r trydydd sector ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym eisiau parhau i weithio mewn partneriaeth a^ hwy i gyrraedd pobl leol, yn enwedig pobl hŷn, pobl anabl ac eraill sy'n profi unigrwydd mewn ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru, a fyddai'n cael budd o fod mewn cyswllt rheolaidd ag eraill dros y teleffon.

'Fy ngwaith i yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i roi cychwyn ar bethau ac rwyf ar gael i roi cyngor a chefnogaeth.'

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Sue Robinson ar 01373 451569 neu e-bostiwch sue@community-network.org.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Dyddiad pwysig

Hoffai Uned Cofnodion Troseddol WCVA dynnu eich sylw at y datganiad gweinidogol a wnaethpwyd ar 19 Mawrth gan Meg Hillier, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol dros Hunaniaeth, lle cyhoeddwyd mai'r dyddiad diwygiedig ar gyfer y ddyletswydd i gofrestru gyda'r Cynllun fyddai 26 Gorffennaf 2010.

O fis Hydref 2009 bydd y meini prawf ar gyfer archwiliadau Manwl yn ymestyn i gynnwys mwy o swyddi cyflogedig a gwirfoddol ac ni fydd archwiliadau Safonol y SCT bellach ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

Mae'n bwysig atgoffa mudiadau pa mor bwysig yw parhau i gynnal archwiliadau datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, lle bydd hynny'n berthnasol. Nodwch, nad yw archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol nac archwiliadau'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, pan fydd ar waith, yn disodli'r arferion recriwtio a chyflogi diogel y dylai pob cyflogwr fod yn eu dilyn eisoes.

Bydd Uned Cofnodion Troseddol WCVA yn parhau i dynnu sylw at y prif gyhoeddiadau yng nghyswllt yr Awdurdod Diogelu Annibynnol ar ein gwefan a thrwy gynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth. Mae gwybodaeth gyfredol ar gael yn www.isa-gov.org.uk ac mae gwybodaeth am wasanaeth datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gael yn www.crb.gov.uk.

Mudiadau Cymru am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2009, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru*.

Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol.

Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Dyma'r categorïau:

- **Gwobr Class ar gyfer y cyfathrebu gorau**
- **Y Wobr Werdd**
- **Y mudiad a edmygir fwyaf**

Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA ym mis Rhagfyr.

Roedd enillwyr y llynedd yn cynnwys Cartrefi Cymru yn sgil cylchgrawn a ysgrifennwyd ac a olygwyd gan ddefnyddwyr ei wasanaethau, Cymdeithas Ponthafren, am dreulio'r flwyddyn a aeth heibio'n lleihau ei hôl-troed carbon a hynny ar gyllideb fach iawn a Fairbridge De Cymru sy'n gweithio gyda phobl ifanc anodd eu cyrraedd .

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 18 Medi 2009. I dderbyn ffurflen enwebu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ewch i www.wcva.org.uk.

Gwefan newydd i Leisiau dros Newid

Mae Lleisiau dros Newid Cymru yn un o brosiectau WCVA sy'n cael ei gefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r prosiect yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu mudiadau trydydd sector i ddeall a dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth a phrosesau penderfynu ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Un o'r gwasanaethau hyn yw gwefan Lleisiau dros Newid Cymru sydd newydd gael ei lansio. Ewch i'r wefan yn www.voicesforchangecymru.org.uk ac fe welwch doreth o wybodaeth ar wleidyddiaeth leol a chenedlaethol, sut mae prosesau a strwythurau gwleidyddol Cymru'n gweithio, dulliau o ymgysylltu â phenderfynwyr, a sut i gynllunio ymgyrch.

Ceir awgrymiadau ar y cyfleoedd sydd ar gael yn awr i fudiadau trydydd sector i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, eitemau o newyddion, digwyddiadau hyfforddi perthnasol, a digon o ddolenni at wybodaeth bellach.

Ond, efallai mai elfen fwyaf unigryw y wefan newydd sbon hon yw'r adran 'Gwasanaeth Monitro' a fydd yn cael ei diweddaru bob dydd Llun. Bydd yn eich helpu i ganfod beth sy'n digwydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y meysydd hynny sydd o ddiddordeb i chi.

Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn materion amgylcheddol dyweder, cliciwch y dudalen 'yr amgylchedd a chynaliadwyedd' a chewch wybodaeth am ymchwiliadau cyfredol y pwyllgor, ymgynghoriadau, cyhoeddiadau diweddar a'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn y maes.

Mae'r wefan yn cadw gwybodaeth mewn 16 categori gwahanol, o blant a phobl ifanc i drafnidiaeth. Mae'n cael ei diweddaru bob wythnos, felly trwy ymweld â'r safle'n rheolaidd, gallwch gadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd a gweld sut y gallwch ddylanwadu ar y pethau sy'n bwysig i chi.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH (029 2043 1700) 029 2043 1701
www.wcva.org.uk (0800 2888 329

WCVA yn cyflwyno tystiolaeth ar eLCO yr Iaith Gymraeg

Yn gynharach eleni, cychwynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar broses o wneud cais am yr hawl i ddeddfu ynghylch yr iaith Gymraeg drwy gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO). Dyma'r cam cyntaf yn y broses ddeddfwriaethol ac mae'n gofyn am gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Y nod yn y pen draw yw creu deddf Gymreig, a elwir yn Fesur Cynulliad, er mwyn 'cadarnhau statws swyddogol' i'r Gymraeg a'r Saesneg, 'sicrhau hawliau ieithyddol yng nghyswllt darparu gwasanaethau', a sefydlu Comisiynydd Iaith.

Anfonwyd gwybodaeth am yr LCO at holl aelodau WCVA ym mis Chwefror, yn gwahodd sylwadau ar y mater i helpu i ffurfio ymateb WCVA i'r ymgynghoriad ar yr LCO, a gynhelir gan un o Bwyllgorau Deddfau'r Cynulliad.

Anfonwyd gwybodaeth am yr LCO at holl aelodau WCVA ym mis Chwefror, yn gwahodd sylwadau ar y mater i helpu i ffurfio ymateb WCVA i'r ymgynghoriad ar yr LCO, a gynhelir gan un o Bwyllgorau Deddfau'r Cynulliad.

Rhoddodd WCVA dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r pwyllgor hwn ddiwedd mis Mawrth, ar sail yr adborth a gafwyd gan amrywiaeth o fudiadau trydydd sector ledled Cymru. Roedd tystiolaeth WCVA yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cytunwn, fel y nodir yn yr LCO, y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu gwneud deddfau ynghylch hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg. Mae Bwrdd WCVA hefyd wedi cytuno ar y safbwynt hwn
- Teimlwn fod angen mwy o eglurder ynglŷn â pha fathau o fudiadau trydydd sector a fyddai'n cael eu cynnwys yn unrhyw fesur gan y Cynulliad ynghylch yr iaith Gymraeg yn y dyfodol; mae pob ymgais hyd yn hyn i wybod pa fathau o fudiadau a gwasanaethau a fydd yn cael eu cynnwys wedi canolbwyntio ar enghreifftiau yn y sector preifat.
- Teimlwn fod dull gweithredu gwirfoddol sy'n seiliedig ar alw eisoes wedi cyflawni llawer dros yr iaith Gymraeg ers Deddf 1993 a gallai barhau i wneud hynny yn y dyfodol.
- Felly, byddem yn argymell mai'r dewis gorau fyddai cynnal y sefyllfa bresennol ar gyfer y mudiadau trydydd sector hynny nad ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, a buddsoddi ar yr un pryd mewn ffyrdd wedi'u targedu er mwyn galluogi mudiadau trydydd sector o bob math i ddatblygu eu gallu i weithio'n ddwyieithog ac i gynnig gwasanaethau dwyieithog ar sail wirfoddol.

Bydd y Pwyllgor Deddfau sy'n ymgynghori ar yr LCO yn adrodd ar ei waith ddechrau mis Mehefin – edrychwch ar wefan Lleisiau Dros Newid WCVA i gael gwybodaeth am ddatblygiad yr LCO: http://www.voicesforchangecymru.org.uk/what-s-occuring-monitoring-service?diablo.lang=cym

Byddai WCVA yn falch o barhau i gael sylwadau gan ei aelodau a chan y trydydd sector ehangach, gan y byddwn hefyd yn cyfrannu at unrhyw ymgynghoriadau a fydd yn digwydd yn y dyfodol os bydd y Gorchymyn yn symud ymlaen i'r cam o fod yn Fesur Cynulliad.

Anfonwch unrhyw sylwadau at policy@wcva.org.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Mai, Gorffennaf, Medi a Tachwedd 2009 a Ionawr 2010.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.